


EICH

TAITH



AT DDOD YN BAROD
AR GYFER YR ARHOLIADAU

CROESO I TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD UNIGOLL A DWYRADD)



Mae'r consortiwm City & Guilds/CBAC TGAU mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn addas i chi os ydych chi rhwng 14 ac 16 oed ac mae gennych ddiweddarch mewn dysgu am ddatblygiad a gofal unigolion drwy gylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae'n addas os ydych chi wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu os nad oes unrhyw wybodaeth flaenorol gennych o'r sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Bydd yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i chi am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol cylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach.

Byddwch yn cael y cyfle i feithrin eich dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddwch hefyd yn meithrin dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain. Byddwch yn ennill dealltwriaeth o sut mae darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru yn cefnogi datblygiad a llesiant unigolion i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

CYNLLUNIO YMLAEN...

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i gynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru sy'n foeseogol a chynaliadwy. Hybu dysgu gweithredol a phersonoli drwy roi cyfleoedd i chi ymchwilio i faterion a thestunau gofal o'ch dewis eich hunain. Llunnir cynnwys y pwnc a gofynion yr asesiad i sicrhau eich bod yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eang priodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Drwy astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, byddwch yn gallu:

- datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at faterion cyfoes mewn amrywiaeth o gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- ymwneud yn weithredol ag astudio iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant i ddatblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyrion â meddyliau ymholgar
- gwerthfawrogi amrywiaeth o safbwyntiau ar effeithiau gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, a gofal plant ar gymdeithas ehangach

- ystyried y ffaith y dylai ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant fod yn foeseogol a chefnogi system iechyd a gofal gynaliadwy
- datblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant gan gynnwys defnyddio a dehongli data
- datblygu ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr hyd yn oed os nad ydych chi mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Mae'n rhoi sylfaen addas ar gyfer astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar safon UG neu Uwch, yn ogystal â darparu sylfaen addas ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau Lefel 2 neu Lefel 3 yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Yn ogystal, bydd yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa. Cynlluniwyd y fanyleb hon i gynnwys materion cyfoes mewn perthynas â darparu system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant foeseogol a chynaliadwy yng Nghymru, ac i'ch galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghlŷn â chyfleoedd dysgu pellach neu wneud dewisiadau gyrfaol cysylltiedig.

GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

AWGRYMIADAU

Dechreuwch feddwl am yr ymarferwyr a'r rolau swyddi gwahanol sydd ar gael ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Ystyriwch faint o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant rydych chi a'ch teulu mewn cysylltiad â nhw mewn mis cyffredin. A yw'n fwy neu'n llai nag yr oeddech yn ei feddwl?

Ystyriwch a oes amgylchedd neu rôl benodol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yr hoffech weithio ynddyn nhw.

Byddwch yn ymwybodol! Gwylwch y newyddion! Mae materion iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn y newyddion bob dydd!

Gwylwch raglenni sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar-lein neu ar y teledu.

Dilynwch ymarferwr iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant ar y cyfryngau cymdeithasol.

CANLLAWIAU LLESIANT

Cymerwch gamau bach.

Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.

Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

Edrychwch ar ôl eich hun.

Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

Byddwch yn bositif.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

Cofiwch fod pawb yn wahanol.

Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

Gradd Unigol

Uned 1: Twf, datblygiad a llesiant dynol

Bydd arholiad ysgrifenedig yn yr haf, fel arfer pan fyddwch chi ym mlwyddyn 10.

Uned 2: Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant

Bydd angen i chi gwblhau dwy dasg asesiad di-arholiad (NEA):

Tasg 1: Darparu Gwasanaeth

Tasg 2: Hybu iechyd

Dwyradd

Unedau 1 a 2 yn ogystal â:

Uned 3: Iechyd a Gofal cymdeithasol a Gofal Plant yn yr 21ain ganrif

Bydd arholiad ysgrifenedig yn yr haf pan fyddwch chi ym mlwyddyn 11.

Uned 4: Hybu a Chefnogi Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Bydd angen i chi gwblhau un asesiad di-arholiad - gweithgaredd i ddiwallu angen.

